## Dydd Iau – Dydd y Cofio a'r Dewis a'r Profi

**Cofio'r Cyfamod**

O mor ddymunol yw cael cwrdd
â'm hoff Anwylyd wrth ei fwrdd,
ymlonni yn ei gariad llawn
a thawel orffwys ar yr Iawn.
Mae'r fath hawddgarwch yn ei bryd,
gwledd felys yw, na ŵyr y byd:
fy nefoedd yw bod ger ei fron
yn siriol wedd ei wyneb llon.

Ymrwymiad adnewyddol yw
i rodio a bodloni Duw,
a phrawf o gariad Brenin nef,
ei ddoniau a'i ffyddlondeb Ef.

Y cof o'i angau ef a'i ras
farweiddia'n llwyr fy mhechod cas;
myfyrio loes Iachawdwr byd
a wywa'r llygredd oll i gyd.

***Robert Owen (Eryron Gwyllt Walia)***